



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Ymgynghoriad

**Aseidiadau amonia a nitrogen ar
gyfer datblygiadau fferm sydd
angen trwydded amgylcheddol neu
ganiatâd cynllunio**

GN020: Canllawiau ar asesu amonia

Mai 2020

Cyhoeddwyd gan:

Cyfoeth Naturiol Cymru

Tŷ Cambria

29 Heol Casnewydd

Caerdydd

CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Ceir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Crynodeb

Yn 2017, diweddarodd Cyfoeth Naturiol Cymru'r canllawiau sydd ar gael ar gynnal asesiadau amonia ar gyfer datblygiadau fferm oedd angen caniatâd cynllunio neu drwydded amgylcheddol. Nod y canllawiau oedd sicrhau bod yr un safonau yn cael eu cymhwyso i ddatblygiadau oedd â'r potensial i gael effaith andwyol ar yr amgylchedd. Yn 2017, gwnaethom ddatgan y byddai adolygiad o'r canllawiau yn cael ei gynnal yn 2019. Mae'r ymgynghoriad hwn o ganlyniad i'r adolygiad hwnnw.

Dangosodd yr adolygiad y materion canlynol:

- Nid oedd y canllawiau yn glir nac yn hygyrch
- Nid oedd y pellter sgrinio ar gyfer ffermydd mawr yn diogelu'n ddigonol
- Roedd y pellter sgrinio ar gyfer ffermydd llai yn rhy geidwadol
- Roedd cyfraith achosion ers 2017 yn awgrymu nad oedd cyfiawnhad dros ddefnyddio trothwyon sgrinio ar gyfer asesiadau cyfunol
- Nid oedd y defnydd o safleoedd gwarchoddedig i asesu effaith amgylcheddol yn gyson â nodau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Roedd y gofyniad i gynhyrchu asesiadau ychwanegol ar gyfer trwyddedu, pan oedd asesiad o'r effaith amgylcheddol wedi'i gynhyrchu'n barod ar gyfer cais cynllunio, yn faich ychwanegol ar gyfer ymgeiswyr
- Nid oedd yn glir pa fath o ddatblygiadau y gellid defnyddio'r canllawiau ar eu cyfer

O ganlyniad, rydym wedi gwneud y newidiadau canlynol:

- Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gynhyrchwyd ar gyfer yr asesiad o'r effaith amgylcheddol sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref i bennu trwydded, gan ddefnyddio'r un trothwyon ble mae'r wybodaeth honno ar gael
- Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o bellterau sgrinio yn seiliedig ar y math o ddatblygiad a nifer y lleoedd i anifeiliaid sy'n cael eu cynnig, gan leihau'r pellter ar gyfer yr unedau llai a'i gynyddu ar gyfer yr unedau mwy o faint
- Byddwn yn cynhyrchu map o leoliadau rhywogaethau a chynefinoedd lle mae rheolaethau llym iawn a modelu manwl yn debygol o fod yn ofynnol; gallai'r map gynnwys, ond heb fod o reidrwydd yn gyfyngedig i, safleoedd Natura 2000
- Byddwn yn tynnu'r trothwy sgrinio ansylweddol o 1% ar gyfer asesiadau cyfunol
- Byddwn yn defnyddio'r lefel gritigol i benderfynu a fydd y datblygiad arfaethedig yn niweidio'r rhywogaeth neu gynefin
- Rydym yn tynnu OGN 41 yn ôl ac yn defnyddio GN 020 yn unig
- Byddwn yn gwneud y canllawiau yn hygyrch a choladu'r holl wybodaeth angenrheidiol o fewn un ffynhonnell

- Bydd y canllawiau yn berthnasol i bob datblygiad sy'n allyrru amonia ac sydd angen naill ai caniatâd cynllunio neu drwydded amgylcheddol

Cynnwys

1	Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn	1
1.1	Yr hyn rydym yn ymgynghori yn ei gylch	1
1.2	Yr hyn mae'r ymgynghoriad hwn yn ei olygu i chi	1
2	Pam fod amonia yn broblem?	2
2.1	Amonia	2
2.2	Pam cael canllawiau?	2
3	Newidiadau arfaethedig	3
3.1	Pellteroedd sgrinio	3
3.2	Rhywogaethau a chynefinoedd a warchodir	3
3.3	Asesiad cyfunol	3
3.4	Pryd bydd angen cynnal gwaith modelu manwl?	3
3.5	Alinio â gofynion yr asesiad o'r effaith amgylcheddol	4
4	Cwestiynau ymgynghori	5
5	Ymateb i'r ymgynghoriad hwn	6
5.1	Dyddiadau pwysig	6
5.2	Sut i ymateb	6
5.3	Sut bydd yr atebion yn cael eu defnyddio?	6
5.4	Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth	6

1 Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Dogfen eglurhaol yw hon sy'n rhoi amlinelliad o'r canllawiau rydym yn ymgynghori yn eu cylch, yn ogystal â throsolwg o'r rhesymau ar gyfer y newidiadau. Mae wedi'i chynllunio i'ch helpu i'w deall a gwneud sylwadau arnynt.

Cynhelir yr ymgynghoriad am gyfnod o 12 wythnos o ddyddiad sydd i'w gadarnhau.

1.1 Yr hyn rydym yn ymgynghori yn ei gylch

Nodyn cyfarwyddyd drafft GN 020, sy'n dangos sut rydym yn disgwyl i asesiadau ar effaith allyriadau amonia o ddatblygiadau sy'n allyrru amonia gael eu cynnal ar gyfer ceisiadau am drwyddedau, a'r safonau y byddem yn eu disgwyl os ymgynghorir â ni ynghylch ceisiadau cynllunio.

1.2 Yr hyn mae'r ymgynghoriad hwn yn ei olygu i chi

Rydym yn credu y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb penodol i'r canlynol:

Gweithredwyr, cymdeithasau masnach, a busnesau:

Dyma eich cyfle i sicrhau bod y nodyn cyfarwyddyd yn gweithio ar eich cyfer chi a'ch diwydiant ond hefyd yn darparu'r mesurau diogelu angenrheidiol i'r amgylchedd.

Byddem yn croesawu unrhyw argymhellion sydd gennych o ran newidiadau a fyddai'n hwyluso ei ddefnydd wrth gynnal y mesurau diogelu y soniwyd amdanynt.

Rheoleiddwyr eraill, y cyhoedd, grwpiau cymunedol a chyrrff anllywodraethol sydd â diddordeb mewn materion amgylcheddol:

Dyma'ch cyfle i sicrhau bod y nodyn cyfarwyddyd yn gweithio i ddarparu'r mesurau diogelu angenrheidiol i'r amgylchedd ac iechyd dynol, wrth barhau i fod yn ddefnyddiol i'r diwydiant ar yr un pryd.

2 Pam fod amonia yn broblem?

2.1 Amonia

Gall amonia gael effaith sylweddol ar iechyd dynol a'r amgylchedd. Mae'r rhan fwyaf o allyriadau amonia yn dod o amaethyddiaeth ac maent yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd gerllaw'r man rhyddhau. Mae planhigion sy'n sensitif i amonia wedi esblygu mewn amgylchedd â lefelau isel o faethynnau ac maent yn gallu defnyddio crynodiadau bach o faethynnau. Pan mae'r planhigion hyn yn dod i gyswllt â lefelau uwch o amonia, nid ydynt yn gallu tyfu ac maent yn tueddu i farw. Mae colli'r planhigion sensitif hyn yn arwain at newid yn y ffordd y mae'r ecosystem yn gweithredu, gan effeithio ar y bwyd sydd ar gael o fewn yr ecosystem honno. O ganlyniad, mae hyn yn cael effaith andwyol ar y we fwyd gyfan, gan arwain at golli rhywogaethau.

Mae amonia hefyd yn nwy adweithiol iawn ac mae'n ffurfio cyfansoddion eraill yn yr aer sy'n troi'n llygryddion i ffwrdd o'r ffynhonnell. Mae hyn yn cynnwys y llygredd a berir gan ddeunydd gronynnol mân iawn sy'n ffurfio mewn ardaloedd trefol o ganlyniad i'r rhyngweithio rhwng ocsidau nitrogen ac amonia.

Nod y canllawiau hyn yw sicrhau, pan mae caniatâd cynllunio neu drwydded amgylcheddol yn cael ei chymeradwyo, fod y datblygiad yn y lleoliad cywir a'i fod yn defnyddio'r dechneg briodol i reoli'r allyriadau. Yn y modd hwn, gallwn sicrhau bod yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd yng Nghymru yn cael eu diogelu a bod ein diwydiant ffermio yn tyfu mewn modd sy'n gynaliadwy.

2.2 Pam cael canllawiau?

Rydym am sicrhau bod gan y diwydiant ffermio gyfres o reolau clir i'w ddilyn a bod modd cael gwybodaeth yn hawdd. Rydym hefyd eisiau sicrhau y gellir gwella bioamrywiaeth yn yr ardaloedd hynny o Gymru sy'n eithriadol o sensitif i lygredd gan amonia a bod yr ardaloedd hyn yn cael eu diogelu fel bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu eu mwynhau.

Mae gan rai ardaloedd o Gymru lefelau cefndirol uchel iawn o amonia a bydd angen i unrhyw ddatblygiad ddefnyddio technegau priodol i leihau llygredd ac atal niwed i rywogaethau sensitif. Mewn ardaloedd eraill ble nad oes rhywogaethau sensitif yn bodoli o bosibl, neu ble mae lefelau o amonia yn isel iawn, bydd rheolaethau o ran allyriadau yn ysgafnach. Yn y modd hwn, gallwn sicrhau y ceir datblygiadau priodol yn y lle hwnnw.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u cynllunio i sicrhau bod gwaith modelu manwl yn cael ei gynnal ble bo angen ac ni ragorir ar lefel ddiogel o amonia mewn safleoedd sensitif.

3 Newidiadau arfaethedig

3.1 Pellteroedd sgrinio

Mae ein tîm modelu arbenigol wedi ailasesu lefelau'r allyriadau o ddatblygiadau dofodnod dwys gan ddefnyddio'r pellteroedd sgrinio rydym wedi bod yn eu defnyddio ers 2017. Dangosodd y gwaith hwn fod y pellter sgrinio o 5 km yn gallu arwain at effaith andwyol ar rywogaethau sensitif y tu hwnt i'r pellter hwn ar gyfer datblygiadau mwy, yn enwedig unedau dodwy.

Yn ogystal, dangosodd y byddai pellter sgrinio llai yn briodol ar gyfer ffermydd llai sy'n cadw llai na 32,000 o adar.

3.2 Rhywogaethau a chynefinoedd a warchodir

Byddwn yn cynhyrchu map o rywogaethau/lleoliadau sensitif a fydd yn cynnwys yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau) hynny ble mae rhywogaethau sensitif yn bodoli, ond a fydd yn gadael allan y rheini nad ydynt yn sensitif i lygredd gan amonia. Bydd y map hefyd yn cynnwys ardaloedd ble mae gennym dystiolaeth fod rhywogaethau sensitif yn bodoli ond efallai nad ydynt yn cael eu diogelu o dan y rhwydwaith o safleoedd Natura 2000 ar hyn o bryd.

Nod y dull hwn yw cydymffurfio â dyletswydd adran 6 yn Neddff yr Amgylchedd (Cymru) i ddiogelu rhywogaethau sensitif wrth sicrhau nad yw datblygiadau mewn safleoedd o fewn y rhwydwaith Natura 2000 presennol nad ydynt yn sensitif i amonia yn cael eu hatal.

3.3 Asesiad cyfunol

Daeth achos *Wealden District Council v Secretary of State for Communities and Local Government, Lewes District Council and South Downs National Park Authority* [2017] EWHC 351 i'r casgliad nad oedd yn briodol defnyddio trothwyon sgrinio er mwyn tynnu allyriadau o asesiadau cyfunol. Felly, yn ein canllawiau diwygiedig, mae angen cynnwys yr holl allyriadau, gan gynnwys y rheini â chyfraniadau o dan 1% o'r trothwy sgrinio, o fewn yr asesiad cyfunol. Os nad oes angen asesiad cyfunol, mae'r trothwy sgrinio o 1% yn parhau i fod yn ddilys.

3.4 Pryd bydd angen cynnal gwaith modelu manwl?

Bydd angen cynnal asesiad modelu manwl os yw cyfraniad eich proses yn uwch nag 1% o'r lefel gritigol a'r llwyth critigol mewn safle sensitif o fewn y pellter sgrinio neu os yw'r lefelau cefndirol yn fwy na'r lefel gritigol.

Mae rhai safleoedd yn sensitif iawn i amonia. Yn y sefyllfaoedd hynny, os yw eich cyfraniadau yn is nag 1% o'r trothwy sgrinio, gall fod angen cynnal gwaith modelu manwl.

Ni fyddwn yn derbyn 8% fel y cyfraniad uchaf mwyach, a bydd pob datblygiad yn berthnasol i'r lefelau o amonia sy'n briodol ar gyfer yr amgylchedd sy'n ei dderbyn.

3.5 Alinio â gofynion yr asesiad o'r effaith amgylcheddol

Yn ôl y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, mae angen asesiad o'r effaith amgylcheddol os bodlonir y meini prawf o fewn atodlenni 1, 2 a 3. Rydym wedi defnyddio'r un meini prawf ar gyfer niferoedd da byw yn y canllawiau hyn a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer yr asesiad o'r effaith amgylcheddol wrth bennu'r drwydded amgylcheddol. Mae alinio'r gofynion yn atal yr angen i ail-wneud yr asesiad ar gyfer cais am drwydded.

4 Cwestiynau ymgynghori

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i chi wneud sylwadau am ein diwygiadau arfaethedig i'r canllawiau.

Byddem yn croesawu cael eich adborth ar y cwestiynau isod yn benodol:

1. A yw'r canllawiau yn glir ac a ydych chi'n gwybod beth sy'n ofynnol?
2. A yw'r ddogfen ddrafft yn cysylltu â'r ffynonellau gwybodaeth gofynnol ac a yw'r holl wybodaeth yn hygyrch o'r ddogfen ddrafft?
3. A yw alinio'r canllawiau er mwyn cynorthwyo Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol / Cynllunio Gwlad a Thref / asesiad o'r effaith amgylcheddol yn ddefnyddiol?
4. Oes angen unrhyw wybodaeth ychwanegol?
5. Unrhyw sylwadau pellach?

5 Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

5.1 Dyddiadau pwysig

Mae'r ymgynghoriad hwn yn agor ar 11 Mai 2020 a bydd yn cael ei gynnal nes 31 Awst 2020.

5.2 Sut i ymateb

Gallwch weld y dogfennau a chwestiynau ymgynghori ar-lein ar <https://naturalresources.wales/?lang=cy>

Pe hoffech ofyn i fersiwn argraffedig o'r ddogfen gael ei hanfon atoch, cysylltwch â'n Canolfan Gofal Cwsmeriaid drwy e-bost, ffôn neu bost:

E-bost permittingconsultations@naturalresourceswales.gov.uk

Ffôn: 0300 065 3000

Post Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, Ffordd Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

Gallwch gyflwyno eich ateb drwy e-bost neu lythyr. Anfonwch eich atebion wedi'u cwblhau erbyn 31 Awst 2020 i'r cyfeiriad uchod.

5.3 Sut bydd yr atebion yn cael eu defnyddio?

Byddwn yn defnyddio yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau bod y canllawiau mor hawdd eu deall a'u defnyddio â phosibl. Os darperir tystiolaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni newid y canllawiau, byddwn yn esbonio sut a pham y mae'r newidiadau wedi'u gwneud.

5.4 Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Trwy gydol yr ymgynghoriad, byddwn yn sicrhau bod yr holl sylwadau (ar wahân i wybodaeth bersonol) ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan yn unol â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) 2018. Mae hyn yn cynnwys sylwadau a dderbynnir ar-lein neu drwy e-bost a'r post, oni bai eich bod wedi gofyn yn benodol i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol. Enwau sefydliadau sy'n ymateb yn unig, ac nid unigolion, fydd yn cael eu cyhoeddi.

Os byddwch yn ateb ar-lein neu ddarparu cyfeiriad e-bost, byddwn yn anfon e-bost atoch yn cydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb. Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ym mis Medi 2020. Byddwn yn cysylltu â chi er mwyn rhoi gwybod i chi pan fydd hwn ar gael.

Yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd gofyn i ni gyhoeddi eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ond ni fyddwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol. Os byddwch wedi gofyn am gadw eich ymateb yn gyfrinachol, efallai y byddai'n dal i fod yn ofynnol i ni roi crynodeb ohono.

Byddem hefyd yn dymuno cysylltu â chi ynglŷn ag ymgynghoriadau eraill.

Os ydych yn cydsynio i dderbyn gwybodaeth bellach gennym ynglŷn ag ymgynghoriadau, ticiwch y blwch canlynol i gadarnhau

Os oes gennych unrhyw bryderon neu ymholiadau pellach, cysylltwch â: dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

I gael mwy o wybodaeth ynghylch prosesu eich manylion personol, gweler ein tudalen [Hysbysiad Preifatrwydd](#) ar y wefan.